# Llwybr Gerdded
# Lloyd George



Arweinwyd yn wreiddiol yn 2019 gan:
Dafydd Williams, Twm Morys a Megan Corcoran

## 1 Y Bont

Llythrennau cyntaf enw D.Ll.G. wedi eu cerfio yn y garreg. Yn ôl yr hanes, y gofaint Christmas Jones a ychwanegodd MP y diwrnod ar ôl i D.Ll.G. gael ei ethol yn Aelod Seneddol ac yn 1916 PM pan etholwyd yn Brif Weinidog.

## 2 Yr Efail

Cynhaliwyd cyfarfodydd trafod yn reolaidd yn Yr Efail a bu D.Ll.G. yn mynychu'r rain i wrando ar ac i fynegi barn, barn oedd yn cael ei ddatblygu yng ngweithdy ei ewythr, Richard Lloyd.

## 3 Yr Ysgol

Sefydlwyd Gorffennaf 1851 – Ysgol Eglwys Anglicanaidd Eglwys Lloegr. Aeth D.Ll.G i'r ysgol yn 1866 pan yn dair a hanner mlwydd oed, tan mis Gorffennaf 1878. Roedd yr addysg i gyd yn Saesneg. Fel ysgol eglwysig roedd yn rhaid i'r plant adrodd y credo a'r catechism bob bore ac adrodd gweddi cyn dechrau ar eu gwersi. Yn 1876 perswadiodd D.Ll.G. y plant i beidio adrodd y credo pan oedd y llywodraethwyr, y person a phwysigion yr eglwys yn ymweld. Pan ofynwyd i'r plant adrodd y credo bu pawb yn ddistaw gan greu embaras i Mr Evans y prifathro ond pan welodd William George y boen ar wyneb y prifathro dechreuodd adrodd y credo ac ymunodd y gweddill o'r plant ond nid D.Ll.G. O ganlyniad i'r brotest cafwyd llwyddiant ac nid oedd rhaid i'r plant adrodd y credo o'r diwrnod hwnnw ymlaen.

## 4 Y Gysgodfan

agosaf at Marine Terrace. Roddwyd y gysgodfan yma i bobl Cricieth gan Y Fonesig Margaret Lloyd George yn 1936.

## 5 Morvin House, Tanygrisiau Terrace

Yn 1880 symudodd y teulu o Highgate i Morvin House yn Cricieth fel tenantiad. Roedd y tŷ yn fwy na Highgate a chwaneg o le i bawb ond ni fu eu h'arosiad yno yn hapus. Nid oedd arian yn dod i mewn gan fod Richard Lloyd yr ewythr wedi rhoi'r gorau i 'w waith fel crydd a bu'n amser caled ar y teulu gyda Richard Lloyd yn benthyca arian gan gyfeillion i roi bwyd ar y bwrdd. Yn 1883 mae yn ysgrifennu yn ei ddyddiadur "My dear children, I would like to see them established with some business on hand, I feel dreadful that I have borrowed as I have when they eat their mid-day meal". I geisio dod dros y tlodi penderfynodd y teulu gymeryd gwestion i aros. Bu rhaid i D.Ll.G. a'i frawd symud i gysgu yn yr atic ond nid oeddent yn hapus. Un o'r bobl a fu yn aros yn Morvin House oedd Rider Haggard a ysgrifenodd "King Solomons Mines".

## 6 Y Neuadd Goffa, Cricieth

D.Ll.G. osododd y Garreg Sylfaen yn 1922.

## 7 Y Ddau Dŷ ar Ffordd Porthmadog

Priododd Lloyd George hefo Margaret Owen, Mynydd Ednyfed, Cricieth ar y 24ain Ionawr, 1888. Heb gartref i'w gynnig iddi, hyd at 1890 buont yn byw hefo rhieni ei wraig ym Mynydd Ednyfed. Etholwyd D.Ll.G yn Aelod Seneddol di dâl dros Bwrdeistref Caernarfon yn Ebrill 1890 ac roedd ei obeithion o gael cartref i'w wraig yn pellhau. Yn Awst 1890 ganwyd Mair Eluned eu hail blentyn ac hefo'r teulu yn cynyddu, penderfynodd Richard Owen tad Margaret, adeiladu un o ddau dŷ sylweddol ar Ffordd Porthmadog, un â'r enw Llys Owen, yn gartref iddo ei hun a'i wraig a'r llall, Bryn Awel i'w rentu gan D.Ll.G. a'i wraig a'r teulu.
Yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, meddianwyd Bryn Awel gan nifer o ffoaduriaid o Wlad Belg. Roedd un ohonynt Emile de Vynck yn arbenigo fel cerfiwr pren ac mae'r penddelw pren o D.Ll.G. a wnaethwpwyd ganddo yn y Neuadd Goffa, Cricieth.


1



8



10


12

## 8 Y Fynwent

Y cyntaf i'w chladdu yn y bedd teuluol oedd Mair Eluned, fu farw Tachwedd 30 1907.

## 9 Capel Pen-y-Maes

Capel o enwad arbennig o'r Bedyddwyr oedd Capel Pen y Maes. Hwn oedd capel y Lloydiaid o Lanystumdwy gyda Richard Lloyd yn un o ddau weinidog wedi eu dewis gan yr aelodau. Yma y byddai D.Ll.G. yn gwrando ar ei ewythr yn pregethu bob Sul. Pregethwr arbennig oedd Richard Lloyd ac mi welai D.Ll.G. sut oedd ei ewythr yn cael gafael ac yn gwefreiddio ei gynulleidfa. Gwrandawodd, dysgodd ac efelychodd. Yn wir pregethau fel ei ewythr oedd ei areithiau politicaidd gorau. Bedyddiwyd D.Ll.G. gan ei ewythr yn y pwll yn yr afon fechan sydd yn llifo o flaen Capel Pen-y-Maes pan oedd yn 12 oed.

## 10 Brynawelon

Pan ddyrchafwyd D.Ll.G. yn Ganghellor ar Ebrill 12 1908 fe gododd ei gyflog o £2,000 i £5,000 ac oherwydd fod ei sefyllfa ariannol wedi gwella fe adeiladodd dŷ mawr i'w wraig ac mi fu yn gartref iddi am weddill ei hoes. Margaret fu yn gyfrifol am gynllunio y rhan fwyaf o'r adeilad a hi roddodd yr enw Brynawelon arno. Margaret fu'n gyfrifol am yr ardd o amgylch y tŷ. Bu hi farw yn Ionawr 1941 a'i merch Megan Lloyd George etifeddodd Brynawelon.

## 11 Tŷ Newydd

Prynodd D.Ll.G. Tŷ Newydd yn 1940 ac mi adeiladodd dŷ ar gyfer ei reolwr fferm ger giat Plas Trefan. Bu farw D.Ll.G. yn Tŷ Newydd ar yr 26ain Fawrth 1945 ac oddi yno y cychwynodd ei gynhebrwng.

## 12 Y Bedd

Yn ei ddyddiau olaf roedd D.Ll.G. yn hiraethu am Llanystumdwy. Roedd yn hiraethu gymaint nes iddo ddweud wrth ei frawd William George nad oedd eisiau ei gladdu yn Abaty Westminster. Dewisiodd lecyn yn y coed uwchben afon Dwyfor lle bu, pan yn blentyn, yn chwarae soldiwrs yn y Rhyfel Franco-Prwsia gyda'i ffrindiau yn 1870. Fe gysegrwyd y llecyn cyn yr angladd a blwyddyn ar ôl yr angladd. Ei unig ddymuniad oedd rhoi y garreg a fyddent yn eistedd arni wedi iddynt flino, ar ei fedd. Blwyddyn ar ôl ei gladdu, fe gynlluniodd Clough Williams-Ellis amgylchiad i'r man claddu a rhoddwyd y garreg ar y bedd.

Cyngor Gwynedd Council

# Llwybr Gerdded Lloyd George



Arweinwyd yn wreiddiol yn 2019 gan: Dafydd Williams, Twm Morys a Megan Corcoran




**ALLWEDD**

- Llwybr Lloyd George
- Llwybr Troed
- Ffyrdd / traciau
- Rheilffordd Cambrian
- Maes Parcio

**Cyfeiriadau grid**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 SH 474385 | 3 SH 473385 | 5 SH 500379 | 7 SH 503382 | 9 SH 497386 | 11 SH 479384 |
| 2 SH 472387 | 4 SH 495376 | 6 SH 500381 | 8 SH 502386 | 10 SH 495386 | 12 SH 475385 |

Dim ond fel canllaw i Lwybr Lloyd George y bwredir y map hwn. Os yw llwybr wedi'i restru fel llwybr troed ond nad oes hawl tramwy yn amlwg ar lawr gwlad yna ni ddylid rhagdybio hawl tramwy. Mae rhan o'r llwybr ar hyd ffyrdd a thraciau a chroesfannau rheilffordd ar draws y ffordd.

Cyngor Gwynedd Council